Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

Taflen Wybodaeth Chwistrellydd Nitrad (GTN)

Canolfan Adsefydlu Cardiaidd

Eich Meddyginiaeth Nitrad

Mae'r feddyginiaeth hon mewn dwy ffurf:

Chwistrellydd a thabledi.

- Defnyddir Glyseryl Trinitrad (GTN) i helpu i leddfu poen angina. (Poen neu anghysur yn y galon a deimlir fel arfer yn y frest ond gellir hefyd ei deimlo yn y safn, y gwddf, un neu'r ddwy fraich, yr ysgwyddau a'r cefn). Mae'n helpu i agor y rhydwelïau coronaidd ac yn gwella'r cyflenwad gwaed i gyhyr y galon.

- Hefyd, gellir ei ddefnyddio cyn ymarfer neu weithgaredd os teimlir y gallai hyn achosi poen.

- O'i roi o dan y tafod, mae'r effaith i'w deimlo rhwng 30 eiliad a 5 munud.

- Stopiwch yr hyn rydych yn ei wneud, eisteddwch i lawr os yn bosibl, gorffwyswch a cheisiwch ymlacio.

- Os cawsoch bresgripsiwn chwistrellydd neu dabledi GTN place rhowch y dabbled neu ddau bwff o'r chwistrellydd o dan eich tafod. **Arhoswch 5 munud.**

- Os na fydd y ddos hon yn gweithio, gwnewch hyn eto'r ail waith. **Arhoswch 5 munud.**

- Os bydd y poen yn parhau ar ôl 2 ddos (10 munud) ffoniwch 999 ar unwaith am ambiwlans.

DYWEDWCH WRTHYN NHW BOD GENNYCH BOEN YN Y FREST.
PEIDIWCH Â GYRRU I YSBYTY.

- Os nad oes gennych alergedd i aspirin, cnoiwch dabled aspirin (300mgs) os oes un wrth law. Daliwch i orffwys hyd nes i ambiwlans gyrraedd.

www.nhsdirect.co.uk
www.bhf.org.uk

Canllaw yw'r daflen wybodaeth hon.

Os bydd gennych unrhyw bryder neu gwestiwn am eich chwistrellydd GTN, gallwch drafod y rhain gyda'ch nyrs neu feddyg.

Rhifau Ffôn Defnyddiol

Ysbyty Brenhinol Gwent, Casnewydd
Ffôn:- 01633 - 234234

Ysbyty Nevill Hall, Y Fenni
Ffôn:- 01873 - 732732

Adsefydlu Cardiaidd, Casnewydd
Ysbyty Gwynllyw
Ffôn:- 01633 – 238398 (oriau swyddfa)

Adsefydlu Cardiaidd, Y Fenni
Ysbyty Nevill Hall
Ffôn:- 01873 – 732510 (oriau swyddfa)

Adsefydlu Cardiaidd, Caerffili
Ysbyty Ystrad Fawr
Ffôn:- 01443- 802265 (oriau swyddfa)

Adsefydlu Cardiaidd, Pontypŵl
Ysbyty'r Sir
Ffôn:- 01495 – 768713 (oriau swyddfa)